# Dathlu'r 200 ym Mhencaenewydd

Ers 200 mlynedd mae capel MC Pencaenewydd yn Eifionydd wedi bod yn fangre ar gyfer addoli ac, fel yr unig adeilad cyhoeddus yn y pentref, wedi bod yn ganolfan ar gyfer pob math o weithgareddau. Yno y priodwyd y diweddar gyn-brifweinidog Lloyd George, er mwyn dianc o brysurdeb tref Cricieth ac allan o olwg y byd. Codwyd sawl person i'r weinidogaeth o'r capel, ac yn fwyaf diweddar y Parch. Edwin Hughes, a ddaeth yn ôl i'r capel rai Suliau yn ôl i gyflwyno'r bregeth yn yr oedfa ddathlu. Un arall a briodwyd yn y capel yw'r Parch. Dafydd Hughes, a briododd un o blant yr eglwys, sef Ann.

Deg mlynedd yn ôl mi fentrodd aelodau'r capel adnewyddu'r adeiladau i gyd, gan greu gofod agored ar gyfer addoli, ac adnewyddu a chodi festri a thoiledau newydd. Gosodwyd cynllun gwresogi oedd yn cymryd gwres o grombil y ddaear, a hwnnw yn ei dro yn cynhyrchu ynni glân ac adnewyddadwy.

Trefnwyd nifer o gyfarfodydd yn ystod 2022 i nodi a dathlu'r daucamlwyddiant. Bu'r cyntaf ar 2 Gorffennaf, a chyfarfod difyr a llwyddiannus iawn ydoedd hefyd, yn gyfuniad o chwarae, bwyta a chanu. Roedd y plant, gryn hanner cant ohonynt, ac ambell oedolyn gwirionach na'i gilydd, yn cael modd i fyw yn trin peli a swigod a chylchoedd a photeli dan do. Ymhen yr awr roedd y barbeciw yn barod ac ymhen awr arall croesawyd y cerddorion i'n diddanu: Ben a Now, yr hogiau lleol, a Dafydd Iwan. Gofalwyd am y gemau a'r barbeciw – a llawer mwy – gan deulu Bryn Mawr. Cyfeiliwyd i Ben yn lleisio a chanu'r gitâr a Now ar y drymiau gan Owenna Hughes. Ar sgrin yn troelli dangoswyd dros bedwar cant o luniau o bobol Pencae ar hyd y blynyddoedd, gan ddechrau gyda llun o Isaac Morris, Pentyrch Isaf, sylfaenydd yr achos.

Darllenwyd englyn gan Robin (Gwyddfor gynt) i goffáu Isaac Morus a'i olynwyr:

Dyma aelwyd y moliant – a'r Achos
A drechodd y deugant
Eleni sy'n ddilyniant
I sêl amaethwr o sant.

Darllenwyd triban hefyd o waith John Eric Hughes, Abergele, un arall o blant yr eglwys:

I'r capel, mawr yw'n dyled
A'n ffydd mewn dyddiau caled.
Rhoes nerth i'r rhai fu dan y don,
Bu'n galon i'r gymuned.

Yna ar 9 Medi cafwyd oedfa'r dathlu, gyda'r Gweinidog, y Parch. Aled Davies yn llywyddu, y Parch Dafydd Hughes yn rhannu atgofion ac yn arwain y defosiwn. Cafwyd pregeth amserol gan y Parch. Edwin Hughes, yn edrych yn ôl i gyfnod Howell Harris, a chan osod her ar gyfer y dyfodol. Wedi'r oedfa, aed ati i dorri'r gacen a oedd yn cynnwys llun o'r capel; dau aelod hynaf y capel gafodd y fraint o dorri'r gacen.
Mae dau ddigwyddiad eto ar y gweill, sef oedfa deuluol a swper diolchgarwch arbennig ym mis Hydref, a Chymanfa Garolau ym mis Tachwedd.



Rhai o blant Pencae o'r ganrif ddiwethaf a ddychwelodd i'r dathlu. Nodir eu cyfeiriad bryd hynny a lle maent yn byw erbyn hyn. Cefn, o'r chwith: Robin Gwyddfor (Caernarfon), Fflur 10 Tregarn (Bethesda), Emyr Caenewydd (Trefor), Gwyneth Tyddyn Bach (Llangernyw) ac Eurwyn Tyddyn Bach (Nefyn). Blaen: Emyr Gwyddfor (Llanystumdwy), John Eric Lodge Trallwyn (Abergele), Menna Fferm Pencaenewydd (Trawsfynydd), Megan Caer Tyddyn (Prestatyn), Siân Caer Tyddyn (Llangadwaladr), Huw Ifor Rhosceiri (Rhydymain) ac Einir Talar Wen (Pontrug).



William Hughes, Edwin Hughes, Dafydd Hughes, Sarah Roberts, Aled Davies ac Owenna Hughes




Dyfed Evans a Myfanwy Jones